COFNODION CYFARFOD Y IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (A) A GYNHALIWYD YN REMOTELY - VIA MICROSOFT TEAMS DYDD MAWRTH, 8 MEHEFIN 2021, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd DRW Lewis – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| TH Beedle | MJ Kearn | AA Pucella | G Thomas |
| JE Williams | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

RJ Collins

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Andrea Lee | Uwch Cyfreithiwr |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Yvonne Witchell | Rheolydd Tîm Trwyddedu |

284. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim

285. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1982, CAIS AM ADNEWYDDU TRWYDDED SEFYDLIAD RHYW, THE PRIVATE SIOP, 72 FFORDD PEN-Y-BONT AR OGWR, ABERCYNFFIG

Cyflwynodd y Rheolwr Tîm – Trwyddedu adroddiad a oedd yn ymwneud â chais a dderbyniwyd gan Darker Enterprises Cyf i adnewyddu Trwydded Sefydliad Rhyw ar gyfer y safle uchod, cyflwynwyd yr adroddiad gerbron yr Is-bwyllgor i’w ystyried gan nad yw pwerau wedi'u dirprwyo o dan y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion.

Dywedodd fod y drwydded bresennol yn ddarostyngedig i amodau safonol y Cyngor yn ogystal â'r amodau arbennig sydd ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad.  Mae'r oriau masnachu rhwng 0930 a 2000 o’r gloch o ddydd Llun i ddydd Sadwrn a rhwng 1000 a 1600 o’r gloch ar y Sul.

Dywedodd y Rheolwr Tîm – Trwyddedu na chafwyd unrhyw argymhellion gan yr ymgyngoreion statudol i amrywio'r amodau sydd ynghlwm yn atodiad A, ac ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau a oedd yn ymwneud â'r cais.

Dywedodd y Rheolwr Tîm – Trwyddedu fod yr ymgeisydd wedi cydymffurfio â'r gofynion statudol i hysbysebu'r cais, a dangoswyd manylion y rhain yn yr adroddiad ynghyd â gofynion a chanllawiau cysylltiedig eraill. Ychwanegodd bod swyddog gorfodi wedi cynnal archwiliad o'r safle ac nad oedd wedi canfod unrhyw achosion o dorri'r drwydded bresennol nac unrhyw achosion eraill a oedd yn peri pryder.

Cynhaliwyd pleidlais mewn perthynas â'r cais, a chafwyd;

PENDERFYNIAD: Bod yr Is-bwyllgor wedi cytuno'n unfrydol dros adnewyddu'r Drwydded uchod, yn amodol ar y telerau ac amodau presennol.

286. MATERION BRYS

Dim